

Pobl, Planed, Ffyniant

Eco-God Ymddygiad Cynaliadwy Brainwaves



Noddir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Raglen Iwerddon Cymru

Mae'r Cod hwn yn adlewyrchu ymrwymiad Brainwaves i gynaliadwyedd. Trwy gyfrwng gweithgareddau'r prosiect, ein nod yw gweithredu'n gyfrifol a gweithio i wneud cyfraniad cadarnhaol i'r amgylchedd ac i'r cymunedau lle'r ydym yn gweithio. Mae'r prosiect Brainwaves yn cymryd camau i helpu i gyflawni 8 o Nodau Datblygu Cynaliadwy 2030.



Defnyddio Dŵr yn Graff

Un o amcanion tymor hir Brainwaves yw sicrhau gwelliant cyffredinol yn ansawdd y dŵr mewn afonydd, llynnoedd ac ardaloedd dyfrol yn ardal y Rhaglen drwy ostwng y llwyth maetholion sy'n dod o ffrydiau dŵr gwastraff amaethyddol. Gadewch i ni ystyried y ffordd y mae dŵr yn cael ei ddefnyddio mewn bywydau pob dydd a dilyn system syml o arbed, ailddefnyddio, ailgylchu.

- ARBED faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio drwy fonitro llif y tap a dŵr yn gollwng mewn gweithgareddau yn y labordy, swyddfa a'r cartref.
- AILDDEFNYDDIO dŵr drwy osod bwced yn y sinc/gawod a'i ddefnyddio i ddyfrio'r ardd neu i socian dillad cyn eu golchi.
- AILGYLCHU dŵr o hen wydrau yfed neu boteli i ddyfrio planhigion.

Caffael Cynaliadwy

Ein hamcan fydd dilyn strategaethau caffael cynaliadwy'r brifysgol ac ystyried sut y gallai ein penderfyniadau am brynu effeithio ar yr ardal leol a'r ardal ehangach. Rydym yn annog pryniant sy'n ystyriol o gynhyrchu a defnyddio cynaliadwy.

- Ystyried eitemau gyda bywyd hirach ac sy'n fwy uwchraddadwy.
- Caffael nwyddau sy'n defnyddio llai o ddeunydd pacio ac sydd â mwy o alluoedd ailgylchu.
- Defnyddio'r caledwedd sydd yno'n barod, lle bo'n ymarferol, ac atgyweirio offer lle bo raid er mwyn osgoi ail brynu.

Sbwriel a Gwastraff

Nod Brainwaves yw helpu'r diwydiant llaeth i reoli ei wastraff yn well a chanfod ffyrdd o ddefnyddio'r gwastraff hwnnw, a'r Economi Gylchol yw'r ffactor sy'n gyrru ein hymchwil. Mae meddwl yn gylchol, ar ffurf dolen gaeedig, yn golygu ailbwrpasu deunydd a defnyddio deunyddiau sy'n bodoli'n barod gymaint ag y bo modd.

- Hyrwyddo systemau swyddfa dibapur ac ail ddefnyddio papur sbwriel os yw'n cael ei gynhyrchu, a hynny fel papur sgrap ar gyfer cymryd nodiadau, ac ati.
- Parhau i ddweud NA wrth fagiau plastig, defnyddio bagiau ailddefnyddiadwy yn eu lle.
- Gweithredu arferion gwyrdd yn ein labordai, gan gynnwys compostio'r planhigion llinad y dŵr a gynhyrchir o'r systemau profi twf.

Tawelu'n Meddyliau am ein Lles

Rydym yn annog arferion iach ac egniol i'n staff drwy'r prosiect ar ei hyd.

- Mynd i le Gwyrdd wrth gymryd egwyl o'r gwaith er mwyn cysylltu â'r amgylchedd naturiol ac i ddod yn ymwybodol o'r fioamrywiaeth leol.
- Gofalu am ein cwsg: Ynghyd â maethiad ac ymarfer corff, mae cwsg da yn un o'r gofynion mawr er mwyn cadw'n iach.
- Annog eich tîm i gael planhigion sy'n puro'r awyr fel Blodau pryf cop (chlorophytum comosum) neu Lili Heddwch (spathyphyllum) yn eu swyddfeydd. Mae aer glân yn hanfodol ar gyfer iechyd a lles.

Pŵer Clyfar

O ran defnyddio egni, anogir tîm Brainwaves i gymryd nifer o gamau clyfar i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd.

- Defnyddiwch oleuni naturiol lle gallwch a pharhau i ddiffodd y goleuadau os nad ydych yn eu defnyddio.
- Tynnwch blwg dyfeisiau electronig i ostwng faint o egni a ddefnyddiwch o amgylch y swyddfa, y labordy neu'r cartref. Mae defnyddio strip pŵer ar gyfer eich dyfeisiau'n gallu rheoli faint o egni a ddefnyddiwch.
- AILGYLCHWCH hen gyfarpar lle bo modd.



www.ucc.ie/en/brainwaves



@BrainwavesEU